| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 31 Gorffennaf 2012 |
| **TEITL YR EITEM** | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg [cais gan yr Aelod Cabinet] |
| **AELOD CABINET** | Sian Gwenllian |
| | |

***Nodwch y Cefndir/Cyd-destun***

Fel Aelod Cabinet Addysg ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc Cyngor Gwynedd, rwyf wedi cychwyn ar y gwaith o amlygu'r prif faterion strategol fydd angen sylw rhwng 2012 – 2017 a fy mwriad ydy gweithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i anelu at sefyllfa ble y cyflawna holl ddisgyblion Gwynedd eu potensial. Bydd prif ffocws y gwaith hwnnw ar y plentyn a'i deulu, a hynny er mwyn :

- creu cyfle am well bywyd i blant/pobl ifanc a theuluoedd Gwynedd
- gwella'r cynnydd ar hyd llwybrau bywyd yr unigolyn waeth beth fo'i gefndir/amgylchiadau
- tracio cynnydd er mwyn adnabod a symud rhwystrau
- cynnig addysg o'r ansawdd orau er mwyn creu unigolion cyflawn a chanddynt syniad cryf o berthyn
- rhoi sgiliau perthnasol i'n pobol ifanc ar gyfer bywyd a byd gwaith
- datblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol plant a phobl ifanc Gwynedd
- rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, amddiffyn a lles plant
- adrodd ar lwyddiannau drwy lygaid y plant/pobl ifanc/teuluoedd
- cynnwys plant a phobol ifanc wrth greu newid a gwrando ar eu llais

I wireddu'r uchod rhaid i ni :

***Sicrhau cysondeb yn ansawdd profiadau plant a phobl ifanc yn ein hysgolion*** [cau'r cwlch rhwng disgyblion â'i gilydd, rhwng ysgol ac ysgol a rhwng dosbarthiadau oddi fewn i'r un ysgol] :

- gwella safonau isel a lledaenu arfer da
- codi safonau llythrennedd a rhifedd
- rhoi sylw i berfformiad treigl ysgolion (dros 3 blynedd)
- rhoi sylw i brofiad a chynnydd yr unigolyn drwy gytuno ar raglenni gwaith
- datblygu hyfforddiant priodol i'r gweithlu cyfan
- datblygu sgiliau arweinyddiaeth a gallu arweinwyr ac athrawon i ysbrydoli disgyblion
- datblygu sgiliau llywodraethwyr i fod yn gyfeillion beirniadol

- rhoi pwyslais ar holl waith y blynyddoedd cynnar
- gwneud y defnydd gorau o'r Gwasanaeth Gwella Addysg Rhanbarthol

***Creu cyfundrefn addysg fydd yn ffynnu i'r dyfodol :***

- cynnal adolygiad cyllidol [cymharu gwariant addysg Gwynedd gyda siroedd eraill a sicrhau cysondeb os oes angen]
- ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd
- cyflawni'r gwaith ad-drefnu sydd wedi ei gymeradwyo yn barod
- creu Cynllun Blaenoriaethau ad-drefnu yn sgil amgylchiadau newydd er mwyn ymateb i amgylchiadau eithriadol/argyfyngus e.e. niferoedd bychain, cyflwr adeiladau, problemau recriwtio arweinwyr
- rhoi sylw i drefniadaeth addysg ym Meirionnydd
- datblygu addysg feithrin yn ein hysgolion
- cynnal adolygiad llawn o anghenion y dyfodol
- datblygu addysg ôl-16 gyda chwricwlwm addas

***Rhoi sylw arbennig i blant [a'u teuluoedd] sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu'n llawn [gan gynnwys maes ADY]*** :

- cau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion a'i gilydd, rhwng ysgol ac ysgol a rhwng dosbarthiadau oddi fewn i'r un ysgol
- symud mlaen i greu canolfan rhagoriaeth addysg arbennig (Hafod Lon newydd)
- parhau i addasu i ateb gofynion disgyblion gydag anawsterau dysgu ychwanegol a phroblemau ymddygiad (Strategaeth Cynhwysiad)
- datblygu rhaglenni (gan gynnwys rhai Aml-Asiantaethol) pwrpasol ag iddynt dargedau clir sy'n osgoi dyblygu
- gweithgareddau ataliol
- cefnogi teuluoedd i gael y gwasanaeth gorau
- ymyrraeth gynnar
- meithrin sgiliau rhiantu a sgiliau ariannol
- Blynyddoedd Cynnar /Dechra'n Deg
- cefnogi teuluoedd trwy gynllun *Gyda'n Gilydd*; Plas Pawb/Caban Bach
- cefnogi plant/pobl ifanc sydd wedi neu ar fin cael eu heithrio : Torri'r Cylch/Amdani; Anogwyr Dysgu Mewn ysgolion; Cynllun Potensial
- cefnogi plant mewn gofal a gofalwyr ifanc

***Nodwch beth yw Pwrpas yr Ymchwiliad. Pam eich bod chi eisiau i'r craffwyr gynnal Ymchwiliad i'r mater?***

Mae perfformiad treigl nifer o ysgolion ar draws ystod dangosyddion CA4 yn fregus ac amlygir hyn yng ngwaith y Prif Swyddogion ar gyfer hunan arfarniad yr arolwg arfaethedig. Cyfeiriwyd at y mater hefyd yn y ffug arolygiad gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn y trafodaethau dilynol gyda'r Arolygydd Cyswllt, Betsan O'Connor. Mae'r sefyllfa

fwyaf bregus yn erbyn y prif ddangosydd TL2+ [*dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg*] a charwn ddwyn y mater i sylw'r aelodau fel ein bod yn gallu mynd ati i ddelio'n fwy effeithiol gyda'r lefel her. Gofynnir yn benodol i'r ymchwiliad fod yn rhoi sylw i'r materion a ganlyn [noder y bydd y materion hyn hefyd ar raglen waith Estyn] :

i. pam bod pegynnu yn digwydd ym mherfformiad CA4 ysgolion ?
ii. safonau cyflawniad mewn Mathemateg ac effaith hynny ar y dangosydd TL2+
iii. pam bod ansawdd safonau a darpariaeth CA3 yn gyffredinol gadarn ar draws ysgolion yr Awdurdod ?
iv. meithrin dealltwriaeth lawnach o berfformiad dysgwyr PYD a'r graddau y mae cyflawniad y grwp yma o ddysgwyr yn effeithio ar berfformiad CA4
v. effaith arweinyddiaeth ar berfformiad ysgolion a'r modd y caiff sgiliau arwain eu meithrin a'u datblygu

***Beth fydd eich meini prawf i fesur llwyddiant neu ddiffygion yr Ymchwiliad?***

Agweddau wedi'u hamlygu a'r materion i gael sylw wedi'u hadnabod.

***A oes gennych adeg benodol mewn golwg? (Bydd Ymchwiliad angen cyfnod o tua 2 fis i'w osod yn ei le ac yn gweithredu dros gyfnod o tua 6 mis)***

Gofynnir i'r gweithredu ddigwydd oddi fewn i ffiniau amser paratoi ar gyfer yr arolwg arfaethedig a chyflwyno Adroddiad Blynyddol y gwasanaeth. Bydd rhan gychwynnol yr adroddiad ar gael cyn diwedd Medi, gvda diweddariad pellach yn Rhagfyr/Ionawr wedi i gymariaethau cenedlaethol CA4 gael eu dilysu a'u rhyddhau i ysgolion ac Awdurdodau.

***Nodwch unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau cytundebol, cyfreithiol neu arall a all effeithio ar waith yr Ymchwiliad.***

Dim

***Atodiad 1***

Mewn cymhariaeth gyda'r ffigwr cenedlaethol, mae perfformiad treigl [perfformiad dros gyfnod 3 blynedd] Gwynedd yng Nghyfnod Allweddol 1 [CA1], CA2, CA3 a CA4 wedi bod yn gyson gadarn gyda'r Awdurdod yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws mwyafrif helaeth o'r dangosyddion. Mewn cymhariaeth gyda safle Prydau Ysgol am Ddim [Gwynedd yn safle 5 yn genedlaethol], mae perfformiad yr Awdurdod hefyd wedi bod yn gyson gadarn dros gyfnod treigl ac mae'r proffil yn cymharu'n ffafriol gyda phroffil nifer o Awdurdodau eraill rhanbarth y gogledd.

Teg nodi, bod proffil cyffredinol yr Awdurdod yn cuddio amrywiaethau mewn perfformiad ar draws ysgolion yr Awdurdod ac amlygwyd hynny i'r aelodau yn adroddiad blynyddol yr Adran Addysg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc fis Medi 2011.

Fodd bynnag, ers cyflwyno'r Fframwaith Arolygu diwygiedig [Medi 2010] mae ffocws cynyddol wedi'i roi gan Estyn ar berfformiad treigl ysgolion ym meincnodau cenedlaethol Prydau Ysgol am Ddim [PYD].

O ran yr Uwchradd, er enghraifft, mae pob ysgol yn cael ei gosod mewn teulu seiliedig ar y % treigl o ddysgwyr PYD sydd yn y sefydliad [nid y flwyddyn sy'n sefyll arholiad].

| Teulu | % PYD | Dosbarthiad Ysgolion Gwynedd 2011 |
|---|---|---|
| C1 | 0-10% | Ardudwy; Berwyn; Brynrefail; Botwnnog; Tywyn; Eifionydd |
| C2 | 10.0%-15.0% | Dyffryn Nantlle; Friars; Gader; Glan y Mor; Moelwyn; Syr Hugh Owen; Tryfan |
| C3 | 15.0%-20.0% | Dyffryn Ogwen |
| C4 | 20.0%-30.0% | Dim un |
| C5 | Dros 30.0% | Dim un |

Mae canlyniadau asesiadau athrawon CA3 ac arholiadau allanol CA4 pob ysgol sydd yn y teulu wedyn, yn cael eu rhestr yn nhrefn teilyngod ar gyfer pob dangosydd, a'u rhannu i 4 chwartel :

- 25% uchaf : chwartel 1
- 50% uchaf : chwartel 2
- 50% isaf : chwartel 3
- 25% isaf : chwartel 4

Mewn arolygiadau ysgolion unigol ac arolygiadau Awdurdodau Lleol, daeth yn amlwg bod craffu llawer mwy manwl ar berfformiad ysgolion ym meincnodau cenedlaethol PYD a bod eu dylanwad ar farn gyffredinol Cwestiwn Allweddol 1 [Safonau] yn

sylweddol [*mae 3 Cwestiwn Allweddol yn y Fframwaith Arolygu newydd : Cwestiwn Allweddol 1 – Safonau; Cwestiwn Allweddol 2 – Darpariaeth a Chwestiwn Allweddol 3 - Arweinyddiaeth*].

Tra bod lle i wella perfformiad nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y chwarteli PYD uchod, mae'r darlun yn un gyffredinol gadarn ar draws CA1, CA2 a CA3. Yn y Dangosydd Pwnc Craidd *[% dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd*] er enghraifft, dim ond 3 ysgol sydd wedi bod yn y chwartel isaf am gyfnod o dair blynedd rhwng 2009-2011 yn CA1 a 10 ysgol yn y chwartel isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn CA2 mae 2 ysgol wedi bod yn y chwartel isaf am gyfnod o dair blynedd a 7 ysgol yn y chwartel isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn CA3 nid oes yr un ysgol ysgol wedi bod yn y chwartel isaf am 3 blynedd yn olynol a dim ond dwy o'r ysgolion sydd wedi bod yn y chwartel isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r sefyllfa ar draws ystod dangosyddion CA4 yn fwy bregus ac amlygir hyn yng ngwaith y Prif Swyddogion wrth fynd ati i gwblhau'r hunan arfarniad ar gyfer yr arolwg arfaethedig. Cyfeiriwyd at y mater hefyd yn y ffug arolygiad gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn y trafodaethau dilynol gyda'r Arolygydd Cyswllt, Betsan O'Connor.

Mae'r sefyllfa fwyaf bregus yn erbyn y prif ddangosydd TL2+ [*dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg*] a charwn ddwyn y mater i sylw'r aelodau fel ein bod yn gallu mynd ati i ddelio'n fwy effeithiol gyda'r lefel her.

Teg nodi, fodd bynnag, bod bron i 50% o ysgolion Gwynedd [canran uchel] yn disgyn i gategori PYD C1 [rhwng 0-10%] ac nad yw hynny, ymhob achos, yn cydnabod yr amddifadedd gwledig sy'n bodoli yn y dalgylchoedd. Mae'r swyddogion perthnasol yn gyson wedi ceisio amlygu yr amddifadedd hwn ac nad ydy lleoliad oddi fewn i deulu mwyaf breintiedig PYD [C1], pob amser, yn adlewyrchu'n gwbl gywir, natur a chyfansoddiad dalgylch yr ysgol ee mae tystiolaeth *anecdotal* yn awgrymu nad ydy sawl teulu lleol, oherwydd hunan barch, yn hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt mewn budd-daliadau ayyb.


Yn ddios, mae hon yn nodwedd amlwg o sawl dalgylch yng Ngwynedd ac mae angen i gyrff ac asiantaethau megis Estyn ei ystyried wrth ddadansoddi perfformiad awdurdod.

Cofier, felly, bod ysgolion Gwynedd sydd yng nghategori C1, yn cael eu cymharu gydag ysgolion mewn ardaloedd mwy breintiedig a gydag ysgolion penodedig cyfrwng Cymraeg. Mae'r her i berfformio i'r lefel ddisgwyliedig oddi fewn i'r teulu PYD yma, yn un sylweddol iawn.

Nid cyd-ddigwyddiad, felly, ydy'r ffaith bod canran uchel o'n hysgolion sydd wedi bod yn y chwartel isaf dros gyfnod estynedig o amser, yn perthyn i deulu PYD C1. Gwella'r perfformiad yma ydy'r sialens sylweddol sy'n ein hwynebu fel Awdurdod.

Nodir isod, er gwybodaeth, broffil y 14 ysgol uwchradd yn erbyn prif ddangosyddion CA4 :

| | |
|---|---|
| | Chwartel 1 |
| | Chwartel 2 |
| | Chwartel 3 |
| | Chwartel 4 |




| | |
|---|---|
| TL1 | Trothwy Lefel 1 : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| TL2 | Trothwy Lefel 2 : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C. |
| TL2+ | Trothwy Lefel 2+ : dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A*i C yn cynnwys Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg. |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd : % dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd |
| SPC | Sgor Pwyntiau Wedi'i Gapio : cyfartaledd pwyntia yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio |

Mae'r proffil uchod yn dangos yn ddigon clir y pegynnu sydd yn digwydd yn CA4 – hynny ydy, canran o ysgolion Gwynedd yn perfformio'n gadarn dros gyfnod treigl ond perfformiad nifer uchel yn rhy gyson yn y chwarteli isaf. Bu'r pegynnu hwn yn rhan o'n trafodaethau diweddar gyda'r Arolygydd Cyswllt.